

# Adroddiad ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2022 – 2023



**Adlewyrchu'r gorau  
o'n cymunedau**



**HEDDLU  
TRAFNIDIAETH  
PRYDEINIG**

# Public Sector Equality Duty Report 2022 - 2023

Adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) i rym ym mis Ebrill 2011 ac mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i gyflawni'r amcanion a nodir o dan a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

**(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;**

**(b) hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**

**(c) meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rannu.**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am ein hymdrechion i gyflawni'r amcanion hyn.



Fe wnaeth ein Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth 2019 – 2022 amlinellu ein dull o ddarparu gwasanaeth plismona cynhwysol i filiynau o ddefnyddwyr gwasanaeth a chyflogeion (ein pobl) y rhwydwaith rheilffyrdd. Fe wnaeth amlinellu ein huchelgeisiau ar gyfer sut y byddem yn gweithio tuag at sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys, a'u bod yn gallu dod â'u holl hunain i'r gwaith. Gellir dod o hyd i'r strategaeth honno [yma](#).

## Nodau

### Y nodau strategol Cynhwysiant ac Amrywiaeth oedd:

1. Bod yn un o heddluoedd mwyaf cynhwysol y DU.
2. Adlewyrchu'n well y poblogaethau oedran gweithio rhanbarthol lleol yn ein gweithlu, gyda ffocws penodol ar rengoedd rhingyll ac uwch lle mae'r bylchau mwyaf.
3. Sicrhau bod pawb yn BTP yn deall pwysigrwydd cynhwysiant ac amrywiaeth a sut rydym i gyd yn chwarae rhan ynddo.
4. I fod wedi lleihau neu ddileu achosion o fwlio ac aflonyddu yn sylweddol.



Mae strategaeth bum mlynedd wedi'i hadnewyddu bellach yn ei lle ar gyfer 2023 – 2028. Cefnogir hyn gan dîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth Strategol (C&D) sy'n defnyddio model partneru busnes sy'n gyrru Cynhwysiant ac amrywiaeth fel rheidrydd busnes ac wedi'i blethu i mewn i bopeth a wnawn. Gyda'r cynllun ar ei newydd wedd mae pum blaenoriaeth strategol i gefnogi ein nod o fod yn gyflogwr modern a chynhwysol a amlinellir yng nghynllun strategol 'Gwarcheidwaid y Rheilffordd' ac i gyflawni yn ôl [Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu](#) ([Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu: Gwella plismona ar gyfer Pobl Dduon](#) ([college.police.uk](http://college.police.uk)) a gweithgareddau yn y [Cynllun Trais yn Erbyn Menywod a Merched](#).



**Nod 1:**

**Byddwn yn darparu  
gwasanaethau plismona  
sy'n deg, yn hawdd  
eu cyrchu ac sy'n ymateb  
i anghenion amrywiol  
y bobl rydym yn eu  
gwasanaethu.**

## Ein hymrwymiad i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn ein cymunedau.

Gan gefnogi ein hymdrechion yn ymwneud â VAWG, fe wnaethom gyflawni 104 o ymgyrchoedd, mentrau a chyfleoedd â ffocws penodol o fewn y cyfnod adrodd hwn gan gynnwys:

- **Gweithrediadau rhagweithiol a mwy o batrolau gydol y flwyddyn ar draws gorsafoedd ledled y wlad**
- **Gweithgarwch ymgysylltu mewn digwyddiadau ar raddfa fawr megis 'Sparkle' ym Manceinion, Gŵyl Reading, Gemau'r Gymanwlad ac 'Wythnosau'r Glas' ar draws gwahanol brifysgolion gyda 75 o swyddogion wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o gam-drin LGBTQ+ ac arfer gorau gan yr elusen GALOP**
- **Ymgysylltu Rhuban Gwyn yn genedlaethol, gan gynnwys #HerGameToo yn ystod Cwpan Pêl-droed y Byd**
- **Datblygu mentrau Mannau Diogelach yn Richmond, Caerdydd a Stratford**
- **Gwaith ar y cyd ar draws Llundain gyda Heddlu'r Met Timau Strydoedd Saffach mewn mannau problemus allweddol**
- **Lleoedd Cynhadledd Troseddau Rhywiol Cenedlaethol ar gyfer ein swyddogion cyswllt troseddau rhywiol (SOLO) i fynychu a dod â dysgu gwell yn ôl i BTP**
- **Bu bron i ni dreblu nifer y swyddogion a hyfforddwyd i ymchwilio i droseddau rhyw ledled y wlad.**
- **Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer 40 o swyddogion BTP i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth VAWG mewn ysgolion ar draws y DU sydd wedi adrodd am faterion VAWG**
- **Creu ystafell addas ar gyfer gofal dioddefwyr yn BTP Newcastle gyda mwy wedi'u cynllunio ar draws y rhwydwaith**
- **Datblygu a gweithredu Llwybr Dargyfeirio yn barhaus ar gyfer troseddau aflonyddu rhywiol**
- **Gan weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant Rheilffyrdd a Crimestoppers, lansiodd ymgyrch genedlaethol a anfonodd neges glir nad yw unrhyw fath o aflonyddu rhywiol yn cael ei oddef ar y rheilffordd ac a gefnogodd ein hymrwymiad ar y cyd i beidio â chael unrhyw fannau anniogel ar ein rheilffordd.**

Ochr yn ochr â'r gweithgarwch hwn, mae pecynnau hyfforddi arbenigol sy'n canolbwyntio ar VAWG wedi'u darparu i ymchwilyr yr heddlu gyda'n huchelgais i gyflwyno hyn hyd yn oed ymhellach ar draws y llu yn 2023; mae hyn yn cynnwys dull sy'n ystyriol o drawma i'n hymateb.. Fe wnaethom hefyd ymrwymo i fod y llu cyntaf i gyflwyno 'Nightingale' sef yr ymateb cychwynnol i hyfforddiant troseddau rhywiol difrifol i bob gweithiwr rheng flaen. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ledled y wlad gyda'r holl swyddogion dan hyfforddiant yn cael hyfforddiant.

## Ein Ap Railway Guardian

Y strategaeth i lwyddiant ar gyfer ein ap Railway Guardian oedd creu cymuned o fewn y rhwydwaith rheilffyrdd ac annog teithwyr i gadw llygad ar ei gilydd, yn ogystal â nhw eu hunain. Roeddem yn cydnabod yr angen i annog newid ymddygiad cadarnhaol gyda phobl yn cymryd camau bach i wneud gwahaniaeth mawr.

Fe wnaethom ddatblygu'r is-bennawd 'Safest Together' [Mwyaf Diogel Gyda'n Gilydd] i gysylltu BTP, cwmnïau gweithredu trenau a defnyddwyr rheilffyrdd fel un gymuned ac annog cyfrifoldeb a rennir. Anogwyd rhanddeiliaid y diwydiant a'r llywodraeth i fabwysiadu'r ymgyrch gan ddefnyddio ein pecynnau cymorth ymgyrchu. Addysgwyd swyddogion ar ymarferoldeb yr ap trwy gyfathrebu mewnol a rhoddwyd deunyddiau iddynt ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae ein ap Railway Guardian wedi cefnogi defnyddwyr rheilffyrdd i riportio digwyddiadau a throseddau yn well yn ogystal â chyrchu gwybodaeth ar sut i aros yn ddiogel wrth deithio. Mae'r ap hefyd yn cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr troseddau VAWG megis Cymorth i Fenywod. Mae'r ddadansoddeg ar yr ap yn dangos:

- **Mae lawrlwythiadau'n parhau i gynyddu wrth i ni gyrraedd 27,406 o lawrlwythiadau erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn.**
- **Y canllaw a welwyd fwyaf yn y cyfnod hwn (o gryn dipyn) oedd esboniad ar yr hyn y gellir ei riportio drwy'r ap Railway Guardian, sy'n dangos bod pobl yn awyddus i riportio a'u bod yn chwilio am arweiniad arno**
- **Mae pob maes arall o'r ap yn dangos ymgysylltiad parhaus gan ddefnyddwyr**

## Ein hymgyrch Speak up, Interrupt [Siaradwch, Ymyrrwch]

Fe wnaeth Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (2020) ganfod mai dim ond 33% o ddiodefwyr sy'n riportio. Mae diodefwyr aflonyddu rhywiol ar y rhwydwaith rheilffyrdd yn aml yn dweud bod teithwyr eraill wedi gweld y digwyddiad ond heb wneud dim i helpu, gan waethygu tan-riportio am aflonyddu rhywiol.

Er mwyn gwella'r data hwn, rydym wedi gweithio gyda Chyfathrebu i gyflwyno cynllun â ffocws VAWG sy'n annog pobl i 'Siarad, Ymyrryd' gan gefnogi ymgyrch ymyrraeth gan wylwyr. Roedd hyn yn cyd-fynd â lansiad ein ap Railway Guardian ac fe wnaethom gefnogi Transport for London (TfL) gyda'u hymgyrch gwylwyr a lansiwyd ym mis Ionawr 2023.

Mae adborth ac ymgysylltu wedi bod yn gadarnhaol trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn benodol rydym wedi gweld nifer o'n fideos cynnwys organig yn mynd yn feiol ar Tiktok.

Rydym hefyd wedi bod â diddordeb sylweddol yn ein gwaith VAWG yn arbennig o amgylch yr ap Railway Guardian lle rydym wedi darparu ar gyfer mwy na 300 o sefydliadau ar draws y diwydiant rheilffyrdd, sectorau trafnidiaeth eraill, y llywodraeth, y GIG ac eraill.

Mae'r gwaith hwn wedi'i amlygu a'i gynnwys ar dudalen we 'Smarter Practice' ['Ymarfer Mwy Clyfar'] y Coleg Plismona, gan fod gennym yr ap diogelwch heddlu cyntaf yn y wlad.

Yn yr ymgyrch Siaradwch, Ymyrrwch, fe wnaethom roi cyhoeddusrwydd i ysgogiadau sgwrsio a gweithredu y gallai teithwyr eu defnyddio'n ddiogel os ydynt yn dyst i aflonyddu rhywiol, heb ofni embaras neu waethygu. Mae enghreifftiau o'r rhain i'w gweld isod.

Fe wnaethom ddewis y strategaeth hon gan fod astudiaethau academaidd a chanllawiau gan ymgynghorydd arbenigol wedi dangos mai'r rhwystrau cyffredin i ymyrraeth yw peidio â gwybod beth i'w wneud; ofn achosi embaras iddyn nhw eu hunain neu i eraill, ac ofn y bydd y digwyddiad yn gwaethygu (h.y. trais).

Fe wnaethom ddefnyddio technegau marchnata a chynnwys cymdeithasol Dylanwadwr ar Tiktok, Facebook, Instagram a Twitter.

Fe wnaeth ymgyrch hysbysebu ar Facebook ac Instagram ddenu 4.3 miliwn o argraffion yn ogystal ag ymgyrch bosteri ar rwydwaith tiwb Llundain a arweiniodd at oddeutu 25 darn o sylw yn y cyfryngau.

Fe wnaeth yr ymgyrch hon gynhyrchu cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i riportio aflonyddu rhywiol yn ogystal â chanmoliaeth gan nifer o elusennau ac arbenigwyr pwnc. Gellir nodi hefyd bod dau ddarn o gynnwys ein hymgyrch wedi mynd yn feirol ar Tiktok.

“  
**Hoffech chi gael fy sedd?**  
”

OS YDYCH YN GWELD RHYWUN YN CAEL EI AFLONYDDU, GALLWCH CHI HELPŪ TRWY ROI FFORDD ALLAN O'R SEFYLLFA IDDYN NHW

#SpeakUpInterrupt

“  
**Ydych chi'n iawn??**  
”

OS YDYCH YN GWELD RHYWUN YN CAEL EIAFLONYDDU, OND NA ALLWCH HELPŪ AR HYN O BRYD, GWIRIWCH GYDA NHW A GWELD A OES ANGEN UNRHYW GYMORTH ARNYNT.

#SpeakUpInterrupt

“  
**Dim ots amdanaf i dw i ond yn edrych ar y map...**  
”


OS YDYCH YN GWELD RHYWUN YN CAEL EI AFLONYDDU, EICH PRESENOLDEB YW EICH PŴER MWYAF.

#SpeakUpInterrupt


## Arolwg Boddhad y Cyhoedd

Gan ddefnyddio data o'n harolwg allanol o foddhad y cyhoedd, rydym yn mynd i'r afael â'n gweithgarwch gweithredol a strategol i wella boddhad, ymddiriedaeth a hyder. Mae'r data isod yn dangos yr ymatebion cyffredinol a dderbyniwyd.


**,Yn gyffredinol pa mor hyderus ydych chi fod swyddogion BTP yn gwneud gwaith da yn amddiffyn y cyhoedd sy'n defnyddio'r Rheilffyrdd**



**Yn gyffredinol, pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo wrth ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd?**



**I ba raddau ydych chi'n fodlon ar ba mor aml rydych chi'n gweld Swyddog Heddlu BTP neu PCSO ar eich taith?**



Yn gyffredinol, mae 51% o'r ymatebwyr yn teimlo'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar berfformiad BTP o ran diogelu'r rheilffordd, gyda 54.3% o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd. Dywedodd y data wrthym hefyd fod 43.2% yn teimlo'n anfodlon ar ba mor aml y maent yn gweld swyddog BTP ar eu taith reilffordd. Ein presenoldeb ar y rheilffyrdd fu ein blaenoriaeth erioed, ond gyda data'n awgrymu nad yw pobl yn cydnabod ein presenoldeb fe wnaethom lansio Op Alert sy'n gweld presenoldeb mewn ardaloedd allweddol yn ystod cyfnodau allweddol gyda Thimau Plismona Bro yn cael eu lleoli gan ddefnyddio'r adnoddau ymgysylltu yn yr ap Railway Guardian. Roedd yr adnoddau ymgysylltu hefyd yn rhoi ffocws ar ddiogelwch menywod gan fod yr arolwg wedi ein hysbysu mai dim ond 31.3% o fenywod a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y rheilffordd.

## Rydym yn hybu ymddiriedaeth a chyfreithlondeb trwy ein Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu (PRAP) gyda Moving the Needle [Symud y Nodwydd] (MtN)

Mae ein darpariaeth o PRAP gydag MtN yn cael ei reoli trwy'r Grŵp Llywio PRAP, sy'n sicrhau atebolrwydd mewn meysydd allweddol ar draws y sefydliad. Mae rhai o'r canlyniadau allweddol o hyn yn weithredol ac ar gyfer cymunedau a phartneriaid wedi'u rhestru isod, gyda'r cynllun yn datblygu'n gyflym i 2023. Nod creu Grŵp Llywio PRAP yw sicrhau ein bod yn dod yn:

- **Gwasanaeth heddlu sy'n cynrychioli pobl Ddu ac sy'n cefnogi ei gydweithwyr Du**
- **Gwasanaeth heddlu sydd yn deg, yn barchus, ac yn gyfiawn yn ei weithredoedd tuag at bobl Ddu**
- **Gwasanaeth heddlu sy'n cynnwys pobl Ddu fel mater o drefn wrth iddo lywodraethu**
- **Gwasanaeth heddlu sy'n amddiffyn pobl Ddu rhag troseddu ac yn ceisio cyfiawnder i bobl Ddu**

Fe wnaeth grŵp llywio PRAP sefydlu waelodlin y gallai'r dystiolaeth adeiladu ohoni, er mwyn olrhain cynnydd a nodi bylchau. Mae uwch swyddogion a staff ar draws y llu yn berchen ar ac yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r camau gweithredu gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau Du a phobl Ddu ifanc.

Cynhaliwyd treial heddlu bach mewn ardal amrywiol o Lerpwl ag effaith gadarnhaol yn cael ei chofnodi ymhlith pobl ifanc Ddu o ran ymddiriedaeth a hyder.

Mae Mini police [Heddlu bach] yn rhaglen ymgysylltu â'r heddlu a ddarperir yn bennaf trwy ysgolion cynradd sy'n targedu pobl ifanc 8-11 oed. Bydd y defnydd wedi'i dargedu o gadetiaid hefyd yn cefnogi meithrin ymddiriedaeth a chyfreithlondeb ymhlith pobl Ddu ifanc. Mae cadetiaid yr heddlu yn rhaglen ymgysylltu sy'n targedu pobl ifanc 13 – 18 oed.

Fe wnaethom gynnal ymarfer casglu data gan ddwyn ynghyd y ffurflenni data sylfaenol eraill megis yr Arolwg Gweithlu Du, Arolwg Pawb, Cymdeithasau Cymorth Cyflogeion (ESA), Cylchoedd Gwranddo a phrofiad bywyd pobl Ddu.

Defnyddir hwn i ddatblygu cynlluniau a'i ymgorffori mewn meysydd gwaith megis prosesau Safonau Proffesiynol, Byrddau Anghymesuredd a Chraffu Allanol. Mae Bwlch Cyflog Ethnigrwydd, cynrychiolaeth y gweithlu a gweithgarwch hyrwyddo a chadw hefyd yn cael y lens hon wedi'i chymhwyso.

Mae gwaith ar hyn hyd yn hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant cynhwysiant ac amrywiaeth i Ffederasiwn yr Heddlu, a Siarter benodol sy'n amlinellu'r amser a ddiogelir i ESAs i ddarparu cymorth pwrpasol i aelodau gan gynnwys ymchwiliadau i gamymddwyn a chwynion.

## Defnydd Pwerau

Nid oedd gan BTP unrhyw fewnwelediad o ran stopio traffig. Fel sefydliad nid oeddem yn gallu nodi a oedd unrhyw anghymesuredd neu anghysondeb yn bresennol o fewn unrhyw ddigwyddiad stopio traffig a gynhaliwyd gan BTP. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, a bwydo'n rhagweithiol i ffrydiau gwaith Defnydd Pŵer NPCC, lansiodd arbrawf i ddal y gweithgaredd hwn. Bu'r arbrawf hwn yn llwyddiant ac mae wedi'i gyflwyno'n genedlaethol. Mae'r defnydd hwn o bŵer yn isel o ran cyfaint ac nid oes unrhyw bryderon wedi'u nodi, gan wella ymddiriedaeth a hyder.

Fe wnaethom greu cynllun 'Hyrwyddwyr Stopio a Chwilio' i adeiladu ar ein safonau uchel presennol a chreu rhwydwaith ar draws y llu o fentoriaid cymheiriaid dibynadwy sy'n cefnogi cydweithwyr i ddeall a defnyddio'r pŵer dadleuol ond buddiol hwn yn well. Mae syniadau diweddar megis oedolyneiddio a dulliau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu dosbarthu drwy'r rhwydwaith hwn. Maent hefyd yn cynnig gwirionedd sylfaenol gan weithredu fel llais y cwsmer, gan gwblhau'r ddolen adborth.

Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad parhaus i leihau anghymesuredd a pheidio â gor-blismona pobl Ddu yn unol â'r PRAP. Fe wnaethom gyflwyno sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), gweithdai anghymesuredd am ddefnydd pwerau a rhaglen datblygu treialu ar gyfer darpar Ringylliaid (Camu i Fyny at Ringyll). Roedd hyn yn cynnig dealltwriaeth weithredol a thactegol i gefnogi ein gweithlu gyda'r sgiliau gofynnol (Stopio a Chwilio / Defnydd Grym).

Crëwyd Cardiau Z Stopio a Chwilio i gael adborth gan bawb sydd wedi cael eu stopio a'u chwilio, nid yn unig am gŵynion ond am y profiad bywyd a gafwyd o'r cyfarfyddiad hwnnw. Ychwanegwyd cod QR at y Cardiau Z presennol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ac yn cael adborth gan y gymuned, yn arbennig gan grwpiau a chymunedau lle mae'r

anghymesuredd mwyaf yn bodoli; gan roi cyfle iddynt gael eu clywed ac i ni ddeall yn well y cymunedau rydym yn eu plismona.. Mae'r adborth yn galluogi gwelliant yn y modd y cynhelir gweithgareddau Stopio a Chwilio a gall gynnig monitro amser real o fewn digwyddiadau â chyfraddau Stopio a Chwilio traddodiadol uchel, megis Carnifal Notting Hill. Mae hyn yn helpu i nodi lle mae angen hyfforddiant; lle gellir dathlu arfer da a sut y gallwn ymgysylltu a chynnwys ein cymunedau.

Mae themâu wedi'u nodi megis diffyg ymwybyddiaeth o ddefnydd arferol o gefynnau, chwilio ffonau, chwiliadau sy'n dinoethi rhannau personol a seiliau rhesymol annigonol. O'r dadansoddiad hwn mae cynhyrchion wedi'u teilwra wedi'u datblygu megis trwy MyLearn (ein system rheoli dysgu) yn ogystal â fideos, pecynnau briffio, mewnbynnau datblygiad proffesiynol parhaus ac ymyriadau wedi'u targedu gyda swyddogion / timau sy'n allanolion yn eu hymarfer.

Mae'r PRAP yn ei gwneud yn ofynnol i ni esbonio neu ddiwygio ein gweithgareddau lle mae anghymesuredd ac i ni ymdrechu i gynyddu ymddiriedaeth a chyfreithlondeb. Fe wnaethom ddatblygu model i wneud y gwelliannau hyn a'i dreialu yng Ngharnifal Notting Hill. Roedd hwn yn ddull arloesol o Stopio a Chwilio, gan ddefnyddio panel craffu byw i ddarparu dolen adborth, wedi'i chwblhau mewn amser real, cyn ei defnyddio'r diwrnod canlynol. Roedd hyn o gymorth o ran cywiro arfer gwael a dathlu arfer da gyda Stopio a Chwilio. Yr effaith oedd atafaelu mwy o arfau yn sgil dull mwy cymesur. Lle nodwyd arfer gwael, cafodd swyddogion hyfforddiant ychwanegol o ganlyniad. Cafodd y dull hwn ei ganmol a'i amlygu fel arfer da gan y Coleg Plismona ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ac mae wedi'i rannu â lluoedd eraill.

Fel rhan o'n gwaith i gefnogi ymddiriedaeth a chyfreithlondeb, rydym wedi archwilio ein hymateb i Droseddau Casineb. Er mwyn sicrhau bod swyddogion yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gynnig lefelau uchel o wasanaeth, rydym wedi datblygu modiwlau hyfforddi 'Ymateb i Gasineb ac Eithafiaeth' Mae hyn yn arfogi ein pobl â thystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' wrth herio casineb ac eithafiaeth ac wrth gefnogi'r rhai y mae'n effeithio arnynt. Er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel wrth riportio digwyddiadau o Droseddau Casineb rydym yn defnyddio'r ap Railway Guardian, sy'n galluogi person i riportio'n haws.

Wrth gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2022, fe wnaethom gynnal dwy sgwrs o fewn y llu, gan gynnwys adolygiad achosion difrifol o achosion blaenorol, gan sicrhau ein bod yn ystyried dysgu allweddol, a chynhaliwyd sesiwn gan 'Nil by Mouth' 'Dim trwy'r Geg' ar Sectyddiaeth.

Ag ymdrech barhaus i ddatblygu ein hymateb i Droseddau Casineb fe wnaethom gymryd rhan mewn Prosiect Troseddau Casineb Trawsfobig gyda Phrifysgol Manceinion sy'n cynnal ymchwil o'r enw "Archwilio Rhyngweithiadau rhwng Dioddefwyr Trawsfenywaidd Troseddau Casineb a'r Heddlu yn y DU".




## Ein gwaith gyda chymunedau a phartneriaid

Drwy ehangu ein perthynas â phartneriaid, rydym wedi gwella cyfleoedd i bobl ifanc o gymunedau amrywiol ymgysylltu â BTP. Gan weithio gyda Kick off @3 ac Ymddiriedolaeth y Tywysog fe wnaethom gynyddu ein hamlygrwydd i bobl ifanc a chynyddu cyfleoedd i'n cydweithwyr gael gwell dealltwriaeth o'r cymunedau rydym yn eu plismona. Fe wnaeth hyn ein cefnogi i adeiladu perthynas o ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a BTP, gan roi tawelwch meddwl a meithrin hyder rhyngom ni a'r gymuned. Mae hyn yn gweithio i ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu a'r system cyfiawnder troseddol yn ogystal â'u cynnwys mewn pynciau megis VAWG, iechyd meddwl a Throseddau Casineb. Trwy ymgysylltu parhaus a pherthnasoedd gwell, rydym yn bwriadu i BTP gael ei weld fel cyflogwr o ddewis i bobl ifanc.

Fel rhan o'r broses sylfaenol adolygwyd y ffordd rydym yn defnyddio craffu allanol. Ar hyn o bryd mae pedwar Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG) ac mae un ohonynt yn IAG Strategol (SIAG). Mae'r tri IAG arall yn cynrychioli Is-adran C, Is-adran D ac Is-adran B. Y dadansoddiad presennol o aelodaeth y grŵp yw:

- **SIAG – 10 benywaidd, 9 gwryw a 6 aelod o leiafrifoedd ethnig**
- **Is-adran B - 7 benyw, 8 gwryw ac 8 aelod o leiafrifoedd ethnig**
- **Is-adran C - IAG – 10 benywaidd, 9 gwrywaidd a 9 aelod o leiafrifoedd ethnig**
- **Is-adran > D - 4 benywaidd, 3 gwryw a 3 aelod o leiafrifoedd ethnig**

Mae gennym hefyd nifer o baneli craffu allanol sy'n cynnig beirniadaeth ar y ffordd rydym yn gweithredu. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau bod gennym gynrychiolaeth amrywiol ac annibynnol o fewn craffu allanol a fframwaith cadarn sy'n cefnogi dysgu a gwella sefydliadol, gan arwain at fwy o ymddiriedaeth a chyfreithlondeb.




**Nod 2:**

**Adlewyrchu'n well  
y poblogaethau oedran  
gweithio rhanbarthol lleol  
yn ein gweithlu.**

## Dadansoddiad Cymhwys


Rydym yn dadansoddi ein data gweithlu yn rheolaidd gan gynnwys ymadawyr, dechreuwyr ac ymgeiswyr. Mae data recriwtio ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yn dweud wrthym fod gennym gyfraddau denu isel o gymharu â chyfansoddiad demograffig poblogaeth y DU (fel yr amlinellwyd yn y cyfrifiad diweddar) ar gyfer menywod sy'n gwneud cais i fod yn swyddogion heddlu neu'n trosglwyddo i BTP fel swyddogion heddlu. Rydym yn gweld cyfraddau denu ychydig yn uwch ar gyfer menywod sy'n gwneud cais i fod yn PCSOs ond mae'r data'n dal i ddangos bod cyfraddau denu yn isel. Fel y gallwch ei weld yn y data isod nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn ceisiadau am rolau staff heddlu.

## Cynrychiolaeth Fenyw; Ceisiadau a Dderbyniwyd



Wrth archwilio'r data ymgeisio gallwn weld cyfraddau denu gwell a chyson ar gyfer rolau cwnstabiliaid heddlu, rolau PCSO a rolau staff yr heddlu gan y rheini o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r data gan drosglwyddeion yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn ond gellir nodi iddo ostwng yn y flwyddyn 2022.

## Cynrychiolaeth Lleiafrifoedd Ethnig; Ceisiadau a Dderbyniwyd



O'r data hwn, mae'r Tîm Recriwtio Gweithredu Cadarnhaol (PART) wedi datblygu cynllun recriwtio gweithredu cadarnhaol. Bydd y cynllun yn darparu ffocws wedi'i dargedu yn y maes hwn i helpu i wella'r ffigurau hyn wrth symud i'r flwyddyn adrodd nesaf. Mae tîm PART bellach wedi symud i'r tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth Strategol i wella ei ffocws ar weithredu cadarnhaol.

Mae'n bwysig nodi na chafodd BTP ei gynnwys yn Rhaglen Ymgodiad yr Heddlu gan nad ydym yn un o luoedd y Swyddfa Gartref.


## Ein Demograffeg Pobl (<https://www.ethnity-facts-figures.service.gov.uk/>)

Mae data'n dangos ein bod yn gynrychioliadol o'n cymunedau lleiafrifoedd ethnig ar gyfer staff yr heddlu er y gallwn wella cynrychiolaeth dynion yn erbyn ([Amcangyfrifon poblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://www.ethnity-facts-figures.service.gov.uk/)) mae 51% o'n cymunedau yn nodi eu bod yn fenyw ac mae 18% o'n cymunedau o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (<https://www.ethnity-facts-figures.service.gov.uk/>)

### Ethnigrwydd

Data staff yr heddlu (yn gywir ar 03/02/2023)


● Gwyn ● Lleiafrif Ethnig ● Heb ei ddatgan



### Rhywedd

Data staff yr heddlu (yn gywir ar 03/02/2023)

● Gwryw ● Benyw




Mae'r Tîm Recriwtio Gweithredu Cadarnhaol yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth gweithredu cadarnhaol i fenywod a lleiafrifoedd ethnig mewn rolau Swyddogion Heddlu a PCSO (gweler isod)

### Ethnigrwydd

Data Swyddogion Heddlu (yn gywir ar 03/02/2023)


● Gwyn ● Lleiafrif Ethnig ● Heb ei ddatgan



### Rhywedd

Data Swyddogion Heddlu (yn gywir ar 03/02/2023)

● Gwryw ● Benyw




## Data Swyddog Cymorth Cymunedol (CSO) (yn gywir ar 03/02/2023)

### Ethnigrwydd

Data Swyddog Cymorth Cymunedol (CSO) (yn gywir ar 03/02/2023)


● Gwyn ● Lleiafrif Ethnig ● Heb ei ddatgan



### Rhywedd

Data Swyddog Cymorth Cymunedol (CSO) (yn gywir ar 03/02/2023)

● Gwryw ● Benyw



Mae'r ffocws hwn wedi gweld mwy o weithgareddau allgymorth recriwtio gweithredu cadarnhaol ledled y wlad. Mae'r tîm yn darparu sesiynau cyngor a chymorth un wrth un i'r rhai sy'n dymuno ymgeisio, ochr yn ochr â gweithdai canolfannau ymgeisio ac asesu.

Gyda data cyfrifiad newydd ar gael rydym yn gallu targedu ein gwaith ymhellach, gan greu Cynllun Recriwtio Gweithredu Cadarnhaol diwygiedig. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys:

- Ymchwilio i arferion recriwtio cynhwysol a'u rhoi ar waith, gan sicrhau nad yw'r rhai â nodweddion gwarchodedig dan anfantais nac yn cael eu digalonni drwy'r broses recriwtio
- datblygu ein dulliau ymgysylltu, gan sicrhau ein bod yn estyn allan ac yn ymgysylltu'n barhaus â'r cymunedau rydym yn ceisio eu cefnogi.

Mae defnyddio setiau data cywir yn sicrhau ein bod yn olrhain ein llwyddiannau ac yn nodi meysydd lle mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion. I wneud hyn, rydym yn cefnogi dylunio setiau data penodol er mwyn rhoi trosolwg rhanbarthol. Mae ein Tîm Recriwtio Gweithredu Cadarnhaol yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol i gefnogi'r tîm recriwtio'n barhaus i fod yn arloesol ac yn feiddgar gyda'n hymgyrchoedd recriwtio, gan sicrhau ein bod yn hysbysebu mewn lleoliadau amrywiol a thrwy lwyfannau hygyrch; gan hyrwyddo ein pwyntiau gwerthu unigryw i'n cymunedau.

Gan ein bod yn llu cenedlaethol sy'n gwasanaethu Prydain Fawr, rydym yn deall nad yw hyn yn rhywbeth y gall y Tîm Recriwtio Gweithredu Cadarnhaol ei gyflawni ar ei ben ei hun, felly crëwyd pecyn cymorth i rymuso timau lleol i wneud gweithredu cadarnhaol yn rhan o'u gweithgarwch ymgysylltu ac allgymorth rheolaidd y maent yn ei wneud gyda'u cymunedau.

## Defnyddio adborth i wella ein prosesau dyrchafu

Dyweddodd ein Harolwg Pobl fod diffyg ymddiriedaeth a hyder yn y broses ddyrchafu (cam 3 NPPF), a bod y broses benodi yn unochrog ac yn seiliedig ar bwy rydych yn ei adnabod. Fe gawsom adolygiad annibynnol o'r broses ac rydym wedi rhoi'r argymhellion ar waith.

Y prif newid yw proses 'un asesiad' ar gyfer dyrchafiad dros dro a pharhaol, gan greu un gronfa o ymgeiswyr sydd yn barod ar gyfer dyrchafiad a galluogi'r Llu i hysbysebu rolau pan fyddant ar gael, gan leihau'r angen am ddyrchafiad dros dro. Byddwn yn creu amserlen uwch ar gyfer yr holl brosesau dyrchafu, gyda byrddau'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob rheng Rhingyll ac Arolygydd (bydd proses arholiadau'r Coleg Plismona yn parhau fel y mae ar hyn o bryd). O ddechrau 2023, er mwyn cefnogi swyddogion sydd wedi'u cyfarparu'n dda ac wedi'u hyfforddi'n dda, rydym yn creu Canolfan Hyrwyddo ar gyfer swyddogion sy'n ystyried gwneud cais am ddyrchafiad; a byddwn yn ailgyflwyno'r cysylltiad rhwng dyrchafiadau a PDR, gyda PDR cadarnhaol wedi'i gwblhau fel rhagflaenydd i ddyrchafiad.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Fframwaith Cymhwysedd a Gwerth (CVF) ond ni fyddwn bellach yn defnyddio cwestiynau seiliedig ar gymhwysedd a oedd yn flaenorol yn rhoi pwysau ar ymgeiswyr i gael Dyletswyddau Gradd Uwch cyn gwneud cais. Yn hytrach, byddwn yn rhoi pwyslais ar y sgiliau arwain sydd eu hangen ar gyfer dyrchafiad er mwyn sicrhau bod ein pobl yn cael eu harwain yn dda. Bydd cynnydd hefyd yn y gronfa o aseswyr, a fydd yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ar ragfarn, yn gynrychioliadol o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, yn annibynnol, ac â dylanwad cyfartal dros wneud penderfyniadau, ni waeth beth fo'u rheng neu eu gradd.

## Ein rhaglen Dewch â'ch Merch i'r Gwaith

Fe wnaethom gyflwyno rhaglen 'Dewch â'ch Merch i'r Gwaith'. Y nod yw ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o swyddogion heddlu benyw. Hyd yn hyn mae digwyddiadau wedi'u cynnal yn Birmingham ac ar draws pedwar o'n Hybiau yn Llundain, ag adborth eithriadol o gadarnhaol a nifer o ymgeiswyr yn ceisio hyfforddiant ar gyfer y broses ymgeisio. Mae'r rhaglen yn fenter ar draws yr heddlu ac fe'i cyflwynwyd ar draws y llu ym mis Ebrill 2023.

## Achrediad Pride 365

Ym mis Mehefin 2022 enillodd BTP achrediad Pride 365. Mae gan BTP hanes balch o gefnogi cydweithwyr LGBT + a mynd i'r afael â homoffobia a Throseddau Casineb ar y rheilffordd, felly roeddem wrth ein bodd bod ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i gydnabod gyda Sêl Cymeradwyaeth Pride 365 gan Interpride, trefnwyr y mudiad byd-eang Pride. Rhoddir y nod barcud uchel ei barch hwn i sefydliadau sy'n dangos ymrwymiad gwirioneddol a dilys i gynhwysiant LGBT+ mewn cymdeithas a'r gweithle. Mae'r broses asesu yn gwerthuso diwylliant, boddhad pobl, polisi, allgymorth cymunedol a marchnata.

## Ein haddewid ystyriol o'r menopos

Mae BTP yn mynd trwy'r broses asesu i fod yn gyflogwr sy'n ystyriol o'r menopos ac yn gobeithio cyflawni hyn yn 2023 i gefnogi ymhellach y gwaith cydraddoldeb rhywiol sy'n cael ei wneud ar draws y llu.

## Ein hymrwymiad HeForShe

Mae BTP wedi bod yn llofnodwr ymrwymiad HeForShe ers nifer o flynyddoedd. Mae gennym rwydwaith o gynghreiriaid gwryw sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Gymdeithas Heddlu Benyw i gefnogi'r ymrwymiad hwn. Mae'r gwaith a wnaed i wella ein polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd wedi'i gyflwyno i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) fel arfer gorau ac wedi'i fabwysiadu gan nifer o luoedd eraill a chafodd sylw yn adroddiad Cenedlaethol HeForShe.

## Ein dathliadau Mis Hanes Pobl Dduon

Gan weithio ar y cyd â'n Cymdeithasau Cymorth i Gyflogeion ac ymgysylltu ag 16 o luoedd eraill, fe wnaethom gynnal amrywiaeth o sgysiau a gweithgareddau ar-lein trwy gydol Mis Hanes Pobl Dduon. Yn ystod yr 11 sesiwn lwyddiannus hon, gwelwyd y lefelau ymgysylltu uchaf hyd yma a chafwyd adborth cadarnhaol o 100%. Rydym wedi ymrwymo i dyfu ein llwyddiant ac yn parhau i sicrhau ein bod yn gwrando, yn dysgu ac yn ymgysylltu o dathliadau mis Hanes Pobl Dduon ac yn cefnogi'r broses honno ar gyfer heddluoedd eraill.

## Mis Hanes Anabledd

Eleni ar gyfer Mis Hanes Anabledd fe wnaethom gynnal dewislen o weithgareddau ar draws y llu a oedd yn agored i holl heddluoedd y DU eu mynychu. Fe wnaethom gydweithio â deg llu arall, tair elusen yn y DU, awdur cyhoeddedig yn ogystal â Pharalympiwr Prydain Fawr. Trafododd y 21 o siaradwyr ystod eang o bynciau gan helpu i ddechrau trafodaeth mewn heddluoedd am anabledd a niwroamrywiaeth ym maes plismona, a sut y gallwn ysgogi newid i sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Y rhaglen hon oedd y gyntaf i ni ei chyflwyno ar gyfer Mis Hanes Anabledd a denodd dros 700 o gynrychiolwyr.

## Ein cynllun cyfathrebu

I gefnogi diwylliant cynhwysol, rydym wedi dyfeisio cynllun ymgysylltu sy'n gweld timau cyfathrebu mewnol ac allanol yn gyrru ymgyrchoedd i helpu i ymgysylltu â'n pobl, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a'u hysbysu ynghylch sut rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r cynllun cyfathrebu'n hyrwyddo ein hymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth drwy gyhoeddi adroddiadau fel hwn a'r adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a Chydraddoldeb yn ogystal ag arsylwi ar ymgyrchoedd cenedlaethol megis wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb, Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes Anabledd, Pride, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Diwrnod Rhyngwladol y Teuluoedd.

**Nod 3:**

**Sicrhau bod pawb yn BTP  
yn deall pwysigrwydd  
cynhwysiant ac amrywiaeth  
a sut rydym i gyd yn  
chwarae rhan ynddo.**

## Ein Harolwg Pawb

Daeth ein 'Arolwg Pawb' blynyddol i ben ym mis Awst 2022 a rhoddodd fewnwelediad i'r sefydliad i ganfyddiadau ein pobl am ystod o bynciau allweddol, sef:

- Cynhwysiant a thriniaeth deg
- Pa mor barod yr oedd pobl yn teimlo i gyflawni eu rôl
- Pa mor dda yr oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael gofal
- Pa mor dda yr oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu harwain
- A'n diwylliant cyffredinol yn y gweithle.

Yn gyffredinol, y maes testun 'cynhwysiant a thriniaeth deg' a gafodd y sgôr fwyaf ffafriol. Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn ddiennw er mwyn rhoi gwir ddealltwriaeth i'r sefydliad o brofiadau pobl. Fe wnaeth yr arolwg ddenu cyfradd ymgysylltu o 63%, sef yr uchaf a dderbyniwyd erioed.

Datblygwyd y cwestiynau gan ddefnyddio cyngor gwyddoniaeth pobl arferion gorau gan ein darparwr, yn ogystal â'r hyn a ddysgwyd o arolygon blaenorol i gasglu'r wybodaeth sydd o'r budd mwyaf i'r sefydliad weithredu.

Cyflwynwyd sesiynau 'Dweud eich dweud' gyda'r Prif Gwnstabl i drafod y canlyniadau. Mae tueddiadau allweddol wedi'u coladu mewn cynlluniau gweithredu lleol a rhai'r sefydliad cyfan ac yn cael eu llywio gan arbenigwyr pwnc. Mae'r cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro gan Fwrdd Gweithredol y Llu. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd am y camau gweithredu gan yr uwch arweinwyr.

O fewn y canfyddiadau mae 'cynhwysiant' yn rhan o ddau o'r tri chwestiwn sgorio mwyaf ffafriol, a oedd yn amlinellu bod pobl yn teimlo'n wybodus am sut i siarad yn erbyn ymddygiad amhriodol, a phobl yn dweud eu bod wedi cael adolygiad perfformiad yn ddiweddar gyda'u rheolwr llinell.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Fe wnaethom adolygu ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau ei bod yn effeithiol ar gyfer nodi a lliniaru risg. Roedd hyn yn cynnwys sganio am arfer gorau ar draws yr holl heddluoedd gan arwain at welliannau i'r broses a dogfennaeth yn ogystal â chreu canllawiau ategol a phecynnau cymorth addysg.

Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gam cychwynnol proses neu bolisi newydd yn ogystal ag ar adeg newid proses neu benderfyniad sylweddol a fydd yn effeithio ar ein pobl neu'r cyhoedd. Yn 2022 fe wnaeth y tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth gefnogi naw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a rhoi cyngor ac arweiniad i unigolion a thimau.

## Pasbortau Addasiadau'r Gweithle

Er mwyn sicrhau bod ein pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl, yn y ffordd fwyaf cynhwysol, crëwyd pasbort addasiad y gweithle. Mae'r pasbort hwn yn disgrifio'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar berson i gyflawni ei rôl.

Gall unrhyw un o'n pobl gwblhau'r pasbort ar unrhyw adeg ac mae'n amlinellu unrhyw addasiadau y gall fod eu hangen. Yn 2022 fe wnaethom ddatblygu'r broses ar gyfer y pasbort gan gynnwys deunydd, defnydd a storio'r data a gedwir yn y pasbortau.

Er mwyn sicrhau bod ein pobl yn croesawu'r fformat, fe fu ymgynghori eang gan gynnwys Cymdeithasau Cymorth Cyflogeion.

## Polisiau gweithio hyblyg ac ystwyth

Er mwyn cefnogi cynhwysiant yn llawn, rydym yn croesawu modelau gweithio hyblyg, ystwyth a hybrid a weithredir o'n prosiect gweithio'n gallach.

Roedd y prosiect hwn nid yn unig yn darparu cymorth ar gyfer arferion mwy cynhwysol megis cydbwysedd bywyd a gwaith, ond hefyd yn galluogi pobl i weithio mewn amgylcheddau diogel sy'n gyfforddus iddynt.

Rydym bellach yn cynnig yr opsiwn o weithio mewn swyddfa, yn hybrid neu weithio gartref i'n pobl lle mae'r rôl yn caniatáu hynny. Mae'r cynllun hwn wedi'i gefnogi gan gynllun buddion sy'n cefnogi prynu offer swyddfa gartref â chymhorthdal, gyda ffocws ar iechyd a diogelwch.

Mae data a gasglwyd ym mis Ionawr 2023 yn dangos bod 38% o staff yr heddlu yn gweithio mewn swyddfa, gyda 55% yn defnyddio dull cyfunol a 7% yn gweithio gartref. Mae ffyrdd hyblyg o weithio wedi cefnogi BTP i gadw talent gyda gostyngiad o 30% yn nifer staff yr heddlu sy'n gadael yn 2022 o gymharu â 2019.

Mae data hefyd wedi casglu bod dulliau gweithio hyblyg wedi lleihau'r nifer sy'n cymryd 'absenoldeb arbennig' o 84% rhwng 2019 a 2022 yn ogystal â gostyngiad o 47% mewn absenoldeb salwch.

## Yr Adran Safonau Proffesiynol (PSD)

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi:

